

COFNODION CYNGOR CYMUNED RHOSYBOL  
Cyfarfod Rhithwith Nos Lun 5 Hydref 2020

1. Oherwydd sefyllfa Coronavirus, penderfyniad wedi cael ei wneud i gynnal y cyfarfod drwy Galwad Fideo.
2. Presennol  
*Huw Edwards (Cadeirydd) Gwilym Morris, Wendy Morris Griffiths, Gwynfor Owen, Aled Morris Jones, Debra Griffiths, Rhian Hayes, Mari Evans (clerc)*
3. Ymddiheuriadau  
*Carol Ann Jones, Richard Owain Jones, Richard Griffiths, Dafydd Jones, Ceri Jones*
4. Datgan Diddordeb  
WMG eitem 6iii – Ysgol Feithrin Rhosybol
5. Darllen a cymeradwyo cofnodion cyfarfod 7 Medi 2020  
*GM yn cynnig, AMJ yn eilio fod y cofnod yn gywir.*
6. **Materion yn codi**
  - i. Cae Chwarae – Diweddariad.  
*Macventure play wedi derbyn copi o adroddiad RosPA, am yrru pris o unrhyw waith atgyweirio sydd angen ei wneud.*  
  
*DP Welding am osod giat Newydd cafodd ei nodi yn adroddiad RosPA fel angen ei atgyweirio.*  
*DP Welding yn rhoi y giat am ddim i'r cae chwarae.*
  - ii. DU Construction Ltd (ebost 05.10.20)  
Fel rhan o'r gytundeb o adeiladu 15 anedd ar safle Marcwis, mae'r cwmni yn awyddus i ddarparu buddion i'r gymuned trwy gynnig ceblhau unrhyw prosiect bychain neu cynnig nawdd at ddiben penodol.  
Esiamplau o'r gwaith blaenorol maent wedi ei wneud yn y llythyr.  
Oes gan y Cyngor Cymuned unrhyw brosiect neu Gwaith sydd angen ei cwblhau, neu os oes angen noddwyr i helpu? Y cwmni yn gofyn os oes rhywbeth angen ei wneud yn y cae chwarae?  
Maent yn hefyd yn holi'r ysgol a mudiadau lleol ac am ystyried y ceisiadau.  
  
*Pawb yn gytun i ofyn i DU Construction am osod ffens a giat rhwng y cae chwarae a'r llwybr.*
  - iii. Ysgol Feithrin Rhosybol, Diweddariad ar Gais ariannol gan Trysglwyn  
*Pris wedi ei dderbyn am y gwaith allan am £1481.83.*  
*Adnoddau cyffredinol hefyd ei angen yn yr ysgol feithrin.*  
*GM yn cynnig rhoi £2000 o arian Trysglwyn tuag at yr ysgol fethrin, AMJ yn eilio.*

- iv. Hosbis Dewi Sant, ymgyrch codi arian tuag at hosbis Newydd o fewn Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi. (ebost 05.10.20)  
*AMJ yn cynnig £100 o arian Trysglwyn GM yn eilio, gan ei fod o fydd i'r gymuned.*
- v. Penygraigwen  
Ymholiad am arwydd i ddangos nad oes lon yn mynd drwy'r pentref.  
*AMJ am holi CSYM o beth sydd yn bosib wneud. Ebst wedi ei yrru gan AMJ yn syth i Priffyrdd.*  
*GO yn nodi bod lon yn hanesyddol yn mynd drwadd ond bellach wedi ei gau.*
- vi. Torch Popi 2020, angen ei archebu.  
*AMJ am drefnu 2 torch, 1 i Rhosybol, 1 i Parc*
- vii. Coeden Nadolig Rhosybol 2020 a goleuadau.  
*Pawb yn hapus gyda gwasanaeth Anglesey Mowers gyda cael gosod coeden nadolig yn 2019, parhau gyda'r drefn, AMJ am drefnu.*  
*ME am drefnu archebu goleuadau i'r goeden.*  
*WMG yn nodi na fydd gwasanaeth blwyddyn yma.*
- viii. Cyfarfod mis Tachwedd – parhau gyda Zoom, neu cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Rhosybol (ond wedi ei gwtogi i 6)  
*Pawb yn gytun ei bod yn fwy diogel cario ymlaen ar Zoom hyd nes i canllawiau newid a cael cyngor i ail ddechrau'r cyfarfodydd yn y neuadd.*

## 7. Gwybodaeth

- 1. Kenyon Cottage, Rhosgoch (ebost 05.10.20)  
Priffyrdd yn gwneud Cynllun Lliniaru Llifogydd
- 2. Llythyr gan Horizon gyda'r newyddion fod Hitachi wedi rhoi'r gorau i'w weithgareddau datblygu niwclear yn y DU, sydd wedi effeithio ar Wylfa Newydd. (ebost 05.10.20)
- 3. Medrwn Môn – Llyfryn Gwybodaeth Newydd (ebost 05.10.20)
- 4. Capel Parc, Llythyr diolch wedi ei dderbyn am arian Trysglwyn tuag at dorri'r coed yn y fynwent.
- 5. Cyngor Cymuned Pentraeth yn chwilio am glerc newydd.  
*Swydd wedi ei lenwi bellach*
- 6. Bwyd Da Môn (ebost 05.10.20)  
Menter i afael mewn 2 mater, sef 'gwastraff bwyd' a thlodi bwyd'  
Cyfle i lenwi holiadur am y fenter  
*Aelodau am yrru unrhyw sylwadau i ME*

## 8. MATERION CYNLLUNIO

### CEISIADAU CYNLLUNIO

- FPL/2020/167  
Dau adeilad amaethyddol newydd yn Pwll Coch Isaf

*Cefnogi'r cais, AMJ yn cynnig, GM yn eilio*

### PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

- HHP/2020/121  
Modurdy newydd yn Gyfynwen, Parc  
Caniatad

## 9. ADRODDIAD ARIANNOL A BILIAU

- a) Caban Mochel – Taliad i Mair Jones £625 (1 Gorffennaf 2019 - 30 Medi 2020)
- b) Cloc y Pentref – Dafydd Jones – *ME am edrych faint mae'r cyngor cymuned angen dalu a pa cyfnod, adio i eitem mis Tachwedd.*
- c) Torch Popi (Rhosybol a Parc) am 2020 £40
- d) Cyfraniadau Ariannol 2020/21 £100.00
  - a. Ysgol Rhosybol
  - b. Ysgol Feithrin Rhosybol
  - c. Urdd Rhosybol
  - d. Clwb Hamdden Rhosybol
  - e. CFFI Rhosybol
  - f. Capel Parc
  - g. Capel Pengarnedd
  - h. Capel Gorslwyd
  - i. Eglwys Llandyfrydog
  - j. Yr Arwydd

*AMJ yn cynnig talu'r cyfraniadau, GM yn eilio.*

- e) Adroddiad cyllid Trysglwyn 2019/20 a hefyd unrhyw ymrwymiad hyd at 30 Medi 2020 wedi ei yrru i'r aelodau er gwybodaeth.

## 10. Unrhyw Fater Arall

*RH wedi derbyn cwyn ac yn codi'r mater fod ceir yn gor-yrru ar lon gefn Rhosybol, gyda rhai ar ei ffonau yn mynd heibio. Mae amser agor a cau ysgol, tua 5yh yn waeth na'r arfer a hefyd tractors yn gyrru ar hyd y lon.*

*AMJ yn son gall y cyngor ofyn am PCSO yr ardal i ddod gyda Camera gyrru. AMJ wedi gyrru ebost yn syth i'r heddlu.*

*RH yn diolch AMJ am drefnu gyda' adran Priffyrdd am drefnu drych ar cyffordd lon gefn ac ei fod yn effeithiol iawn.*

*ME wedi derbyn cofnodion hanesyddol Cyngor plwyf Llandyfrydog 1956 hyd at 1984, GM yn awgrymu iddynt cael ei cadw yn storfa'r cyngor cymuned yn Ysgol Rhosybol.*